



PWLS TENANTIAID CENEDLAETHOL AR AGWEDDAU AR YR ARGYFWNG YNNI A HER SERO NET

AWST 2022
WWW.TPAS.CYMRU



NODDWYR LLAIS TENANTIAID

Rhagair

Croeso i'n ail **Arolwg Tenantiaid ar Ganfyddiadau Tenantiaid o gostau ynni, newid hinsawdd a Sero Net.**

Cynlluniwyd yr arolwg a'r adroddiad hwn i archwilio barn tenantiaid am gostau tanwydd a'r argyfwng hinsawdd ehangach. Credwn, fel sefydliad ymgysylltu â thenantiaid Cymru, fod adroddiadau arolwg fel hyn yn rhoi mewnwelediad gwirioneddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r hyn y mae tenantiaid yn ei feddwl.

Cawsom gyfradd ymateb ardderchog, gyda 714 o denantiaid o bob rhan o Gymru mewn ystod eang o ddeiliadaeth, gan gynnwys tenantiaid Cymdeithasau Tai, Tai Awdurdod Lleol, Tai â Chymorth, a thenantiaid yn y sector rhentu preifat. Roedd hyn yn fwy na dwbl o'i gymharu â'n harolwg blaenorol yn 2021.

Dylai'r adroddiad hwn helpu i roi ffocws i grwpiau tenantiaid, staff tai a llunwyr polisi wrth ymdrin â chostau ynni a chyflawni targedau heriol SATC2 yn enwedig amcanion Sero Net.

Gobeithiwn y bydd yr ymchwil hwn yn graff i chi, a gobeithiwn y bydd y sector yn croesawu ac yn ystyried y canfyddiadau fel cyfle ar gyfer newid cadarnhaol. Mae TPAS Cymru yn edrych ymlaen at weithio gyda thenantiaid a landlordiaid i fwrw ymlaen â'r argymhellion.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r holl denantiaid a roddodd o'u hamser i ymateb i'r arolwg hwn ac rydym yn croesawu adborth ar sut y gallwn wella'r arolwg hwn wrth symud ymlaen.

David Wilton,
Prif Weithredwr, TPAS Cymru



Cyflwyniad i Bwls Tenantiaid

Pwls Tenantiaid yw llwyfan cenedlaethol Cymru sy'n galluogi tenantiaid i ddarparu adroddiadau dienw o'u profiadau, eu meddyliau a'u teimladau yn ymwneud â'u cartrefi a'u cymunedau.

Ar hyn o bryd maent yn cymryd y ffurf ganlynol:

- 1) **Arolygon blynyddol** - pynciau y credwn eu bod yn bwysig ac y mae angen eu holrhain.
Ar hyn o bryd mae 2 arolwg blynyddol
 - o Arolwg Ynni a Sero Net
 - o Arolwg blynyddol 'Beth sy'n Bwysig' yn edrych ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i denantiaid a'u cymunedau
- 2) **Arolygon amserol penodol** rydym yn datblygu gyda rhanddeiliaid fel Llywodraeth Cymru i helpu i ddod â mewnwleidiad i ddatblygiadau polisi
- 3) **Arolygon cynulleidfa benodol** - yn aml nid ydynt yn weladwy gan eu bod wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd penodol e.e. Tenantiaid y SRhP yng ngogledd Cymru ar opsiynau cymorth, tenantiaid Cymdeithasau Tai ar ddiwygio rheoliadau ac ati.

Gobeithiwn fod y canfyddiadau a'r argymhellion yn yr ymchwil hwn yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar yr heriau y mae tenantiaid yn eu profi a'u barn ar yr agenda Sero Net. Trwy wrando ar denantiaid a rhanddeiliaid yn agored, yn onest ac yn dryloyw, credwn y gall tenantiaid helpu i gyflawni amcanion newid hinsawdd.

Cyhoeddir yr holl adroddiadau ar borth Pwls Tenantiaid ar ein gwefan.

<https://www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid>

Dulliau Ymchwil

1. Roedd yr arolwg yn fyw o 10 - 24 Mai 2022
2. Darparwyd Pwls Tenantiaid trwy lwyfan arolwg ar-lein Doopoll
3. Fe wnaeth TPAS Cymru beri 18 cwestiwn (gweler atodiad) i aelodau cronfa ddata Pwls.

Sut hyrwyddwyd yr arolwg

- 1) Fe'i hanfonwyd at 1400+ o denantiaid a oedd wedi ymrwymo i Bwls Tenantiaid. Fel pob cronfa ddata arolwg hirdymor, mae rhai aelodau wedi bod ar y rhestr bostio ers 5 mlynedd, felly rydym yn gweld dirywiad yn y cyfraddau ymateb. Mae'n her cael gwared ar y rhai nad ydynt yn ymateb gan fod ymatebion yn ddienw felly ni allwn eu hadnabod a'u dileu'n hawdd. Rydym yn ychwanegu aelodau newydd yn barhaus, felly credwn fod yr ecwilibriwm 'gweithredol' yn cael ei gynnal.
- 2) Hyrwyddiad gan landlordiaid cymdeithasol a grwpiau tenantiaid i'w tenantiaid. Mae'r dull hwn yn creu rhai gwahaniaethau amlwg yn ymatebion tenantiaid fesul landlord yn dibynnu ar raddau'r landlord ar ymgysylltu/hyrwyddiad. Er enghraifft, y tro hwn ymatebodd tenantiaid Cyngor Powys yn uwch nag a welwn fel arfer ar arolygon Pwls eraill a gallai fod oherwydd hyrwyddo gwahanol gan staff tai.

+ Ymgyrch Instagram

3. Creodd TPAS Cymru ymgyrch hysbysebu cyfryngau cymdeithasol taledig gan ddefnyddio platfform Instagram. Oherwydd llwyddiant yr hysbysebion taledig Instagram ar gyfer arolwg 'Beth sy'n Bwysig' 2021, defnyddiwyd yr un dull eleni. Yn yr ymgyrch flaenorol, gwelsom gynnydd sylweddol yn ymatebwyr y SRhP ac ymatebwyr iau.

4. Y tro hwn cyrhaeddodd ein hysbyseb ar Instagram 22,095 o bobl ledled Cymru yn ystod cyfnod yr hysbyseb – gyda 33,679 o bobl wedi gweld yr hysbyseb.



5. Mae 290 yn cael eu holrhain fel rhai a ddechreuodd yr arolwg o ganlyniad i glicio o'r hysbyseb (Credwn hefyd bod pobl wedi gwlgio Pwls yn uniongyrchol o ganlyniad i weld yr hysbyseb). Costiodd yr ymgyrch £160 dros 6 diwrnod. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw ostyngiad mewn ymateb ar ddiwrnod 6, a byddai mwy o gyllideb wedi parhau i ddarparu ymatebion cadarnhaol – ymatebwyr iau a rhentwyr preifat.

Cyfanrwydd data

Adolygwyd y data ymateb ar gyfer unrhyw anghysonderau. Ni chafwyd hyd i unrhyw broblemau.

Crynodeb o'r ymateb

Ymatebodd cyfanswm o 714 o denantiaid. Mae hynny'n cynnwys pob cymdeithas dai a'r stoc sydd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn ogystal ag ymateb sylweddol i'r SRhP.

Roedd y gyfradd ymateb hon yn gynydd o 136% ar ein harolwg Sero Net blaenorol (302 o ymatebion yn Ch1 2021). Dyma oedd yr ail gyfradd ymateb uchaf i ni ei chyflawni ar gyfer Pwls.

Cefndir Lleiafrifoedd Ethnig Asiaidd Du (BAME)

3% o denantiaid yn yr arolwg hwn sydd â chefnidir Lleiafrifoedd Ethnig Asiaidd Du (BAME). Yn ôl StatsCymru, mae poblogaeth Cymru yn cynnwys 5.6% o bobl sy'n uniaethu ag ethnigrwydd sy'n gysylltiedig â BAME. Felly mae TPAS Cymru fel sefydliadau eraill yn cydnabod bod ganddo waith pellach i'w wneud yn y dyfodol i sicrhau bod lleisiau BAME yn cael eu cyrraedd a'u clywed.

Nodyn Arolwg – cynhaliwyd yr arolwg hwn ym mis Mai 2022 a chwblhawyd y dadansoddiad a'r adroddiad ym mis Awst. Mae'r Argyfwng Ynni wedi symud yn gyflym ac yn gwaethgu i lawer. Bydd agweddau'n newid yn gyflym gyda mwy yn wynebu tloedi tanwydd posibl.

Llwyddiant yr Arolwg

- ✓ Yr arolwg hwn oedd yr ail gyfradd ymateb fwyaf hyd yma ar gyfer Pwls Tenantiaid ac roedd yn ddwbl cyfradd ymateb arolwg Sero Net y llynedd.
- ✓ Roedd gennym ni ystod eang o denantiaid a oedd yn cynnwys tenantiaid SRhP iau.
- ✓ Mae platfform hysbysebu Instagram yn parhau i berfformio wrth gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach
- ✓ Roedd canran sylweddol o denantiaid (a roddodd eu henw) yn hysbys i ni nac yn ymwneud â sianeli cyfranogiad tenantiaid sefydledig. Mae'r lleisiau hyn yn bwysig i gael eu clywed er mwyn rhoi persbectif ehangach, mwy amrywiol.
- ✓ Roedd y cwestiynau yn yr arolwg hwn yn canolbwyntio'n helaeth ar Sero Net ac effeithlonrwydd ynni, ac mae'r arolwg hwn yn rhagddyddio cyhoeddi Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, a oedd hefyd yn canolbwyntio'n drwm ar Sero Net.

Canfyddiadau Allweddol

1. Mae 65% o denantiaid yn poeni na fyddan nhw'n gallu fforddio gwresogi eu cartref oherwydd costau ynni cynyddol .
2. Mae 89% wedi newid ymddygiad ar sut maent yn gwresogi eu cartref, megis defnyddio llai o wres canolog.
3. Dim ond 19% a ddywedodd eu bod wedi cael eu heffeithio gan y ffaith bod y cyflenwyr ynni wedi cau.
4. Teimlai 64% o denantiaid yn hapus i gymryd rhan mewn grŵp i drafod cytundeb ynni yn seiliedig ar eu cymuned leol neu landlord.
5. Dywedodd 45% o denantiaid na fyddent yn talu rhent uwch yn gyfnewid am filiau ynni is o gymharu â 21% a fyddai. Roedd yna 34% sylweddol nad oedd yn gwybod a fyddent yn fodlon talu rhent uwch a dywedodd y byddai'n dibynnu ar faint o gynnydd neu faint y byddent yn ei arbed mewn costau ynni.
6. Ar raddfa o 1-100, roedd y tenantiaid a ymatebodd yn 86% ar gyfartaledd pan ofynnwyd iddynt pa mor bryderus oeddent am newid hinsawdd.
7. Ni fyddai gan fwyaf y tenantiaid unrhyw syniad ble na sut y byddent yn gwefru cerbyd trydan pe byddent yn newid yfory.
8. Pan roddwyd opsiynau ar gyfer datrysiadau ynni a gwresogi newydd, roedd paneli solar yn fwyaf adnabyddus (35%).
9. Byddai 49% o denantiaid yn hapus i gael System Ynni Deallus wedi'i gosod unwaith iddynt ddysgu mwy amdani..
10. Mae gwybodaeth am y term Llyfrgell o Bethau yn isel ar 25% (yn rhannol fel y cyfeirir ato'n aml fel Benthyc yng Nghymru). Dyblodd diddordeb mewn Llyfrgell o Bethau ar ôl cael ei egluro.
11. Mae caffis atgyweirio yn fwy adnabyddus ar 53%, a'r grŵp â'r diddordeb mwyaf unwaith yr eglurwyd oedd llai na 30 o rentwyr neu denantiaid a nododd eu bod yn BAME (y ddau yn 85%).

Argymhellion:

- Mae angen mwy o ymgysylltu a chyfathrebu ar denantiaid gan eu landlordiaid ynghylch sut y bydd Sero Net yn effeithio arnynt a beth i'w ddisgwyl yn y blynyddoedd i ddod. Mae yna lawer o atebion gwahanol i gyflawni cartrefi gradd tystysgrif perfformiad ynni (EPC) uwch, a gyda chymaint o wybodaeth yn cael ei rhyddhau am yr hyn sydd angen ei wneud, gall ddod yn ddryslyd i denantiaid wybod sut y bydd eu cartrefi'n newid.
- Gyda rhyddhau SATC2 yn ddiweddar, mae angen trafodaeth, gwybodaeth a chanllawiau cliriach ar sut y bydd nodau Sero Net yn cael eu hariannu a sut y cânt eu gweithredu.
- Rhaid i bolisiâu Llywodraeth Cymru a rhaglenni buddsoddi Landlordiaid fuddsoddi mewn cartrefi presennol i ddod â chyfraddau ynni effeithlon i fyny i'r safonau newydd i fynd i'r afael â'r argyfwng ynni a fyddai o fudd ariannol i'r tenant wrth dalu rhent a darparu cartref cynhesach.
- Dylai landlordiaid adolygu eu strategaethau cyfranogiad tenantiaid i sicrhau bod y prosiectau a'r gwasanaethau hyn yn cael eu monitro gan denantiaid i nodi ac olrhain bodlonrwydd tenantiaid.

Rhan 1: Sefydlu pwy ymatebodd


Pa fath o ddeiliadaeth ydych chi'n byw ynddo?

Gofynnwn hyn i olrhain cywirdeb sampl data a'i ddefnyddio fel hidlydd wrth astudio gwahanol gyfraddau ymateb i gwestiynau dilynol.

Fel y nodwyd, ymatebodd 714 o bobl.

Noder: Rydym yn falch gyda'r cymysgedd o ymatebion. Pan ddechreuon ni Pwls Tenantiaid, roedd gennym lefelau uchel o ymatebion gan denantiaid Cymdeithasau Tai (cymaint ag 85% yn y gorffennol), nawr ar 52% wrth i ddeiliadaethau eraill ymateb mewn niferoedd uwch.

Er ein bod yn cynyddu ymatebion ar draws pob deiliadaeth, rydym yn falch iawn o weld bod 33% bellach yn denantiaid y SRhP. Hoffem weld gwelliant yn y gyfradd ymateb hon gan denantiaid awdurdodau lleol.



Mae 'Arall' yn gymysgedd o berchnogaeth cyfranddaliadau neu bobl yn aneglur ynghylch perchnogaeth eu llety a ddarperir gan sefydliadau cymorth neu elusennau.

Er gwybodaeth – y dadansoddiad deiliadaeth o'i gymharu ag arolwg cyfatebol y llynedd yw:

Housing Tenure	Dadansoddiad 2021	Dadansoddiad 2022
Cymdeithas Tai	68%	52%
Awdurdod Lleol	13%	10%
Landlord Preifat	10%	33%
Tai â Chymorth	2%	3%
Arall	7%	3%

Cynrychiolaeth ar draws Cymru

Ym mha Sir/Awdurdod Lleol ydych chi'n byw?


Yr ardaloedd a ymatebodd uchaf – pob deiliadaeth	Yr ardaloedd a ymatebodd uchaf ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai
1. Caerdydd	1. Casnewydd
2. Abertawe	2. Abertawe
3. Powys	3. Rhondda Cynon Taf

Yr ardaloedd a ymatebodd uchaf ar gyfer rhentwyr preifat	Yr ardaloedd a ymatebodd uchaf ar gyfer tenantiaid awdurdod lleol
1. Caerdydd	1. Powys
2. Abertawe	2. Abertawe
3. Rhondda Cynon Taf /Sir Benfro	3. Bro Morgannwg

- Disgwylir y bydd lefelau uwch o ymatebion o ardaloedd trefol dwysedd uwch allweddol Cymru megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.
- Yn draddodiadol mae RhCT yn dychwelyd lefelau uchel o ymatebion gan gymdeithasau tai gan ei bod yn debygol y bydd 10+ LCC yn yr ardal honno.
- Allan o'r ardaloedd mwy gwledig, cafwyd ymatebion traws-ddaliadaeth da o Bowys, Conwy a Gwynedd.
- Yr ardal ymateb SRhP isaf oedd cymoedd Merthyr a Gwent.
- Gan edrych ar y sectorau cymdeithasol a phreifat gyda'i gilydd, yr ardaloedd a ymatebodd leiaf oedd Sir y Fflint, Wrecsam, Torfaen ac Ynys Môn.

Proffil Oedran

Rydym yn falch iawn o weld demograffig cynyddol iau yn ymateb i Bwls Tenantiaid. Mae hyn yn cyferbynnu'n sylweddol â mathau traddodiadol o gyfranogiad tenantiaid sy'n aml yn denu cynulleidfa hŷn, sydd wedi ymddeol yn aml. Mae'r dull hwn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr gan denantiaid nad ydynt yn ymgysylltu ac yn ategu sianeli llais tenantiaid eraill sy'n denu demograffig gwahanol.




Noder: Pan fyddwn yn hidlo yn ôl deiliadaeth, mae gan ymatebwyr Cymdeithasau Tai ogwydd cryfach o lawer tuag at denantiaid hŷn ac mae gan ymatebwyr SRhP duedd dosbarthiad iau.

Incwm Aelwydydd Tenantiaid

Noder: Roedd tenantiaid yn gallu dewis un ateb i'r cwestiwn hwn heb unrhyw flwch sylwadau agored.

Pob deiliadaeth: Sut fydddech chi'n disgrifio sefyllfa incwm eich cartref?



Tenantiaid Tai Cymdeithasol


Y brif ffynhonnell incwm ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol oedd Credyd Cynhwysol (38%) ac incwm ymddeol (30%).

Nid yw hyn yn annisgwyl oherwydd yr ystod oedran uwch o denantiaid tai cymdeithasol a gwblhaodd yr arolwg hwn a phobl ag anghenion cymorth.

Mae dros chwarter y tenantiaid (26%) yn dibynnu ar incwm cyflog fel eu prif ffynhonnell. Nid yw hynny i ddweud mai dim ond 26% o denantiaid sy'n gweithio, yn syml mae'n nodi mai dim ond 26% sy'n ennill digon fel eu prif incwm.

Tenantiaid Tai Preifat

Y brif ffynhonnell incwm i denantiaid preifat oedd incwm cyflog (69%). Mae hyn yn rhannol oherwydd y ddemograffeg oedran ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg hwn (iau), dim ond 7% o denantiaid oedd yn dibynnu ar incwm ymddeoliad a 19% ar Gredyd Cynhwysol.



O gymharu sut mae incwm yn cael ei gynhyrchu ar aelwydydd mewn tai cymdeithasol â'r rheini yn y sector preifat, gallwn weld bod lefelau uwch o denantiaid yn dibynnu ar incwm ymddeoliad ac incwm lles mewn tai cymdeithasol o gymharu â'r rheini yn y sector preifat.

Wrth hidlo ac ystyried gwahaniaethu oedran, gallwn weld bod y rhai rhwng 18-45 oed yn dibynnu yr un faint ar incwm gwaith, sef 65%. Mae hyn yn wahanol i Pwls Tenantiaid y llynedd, lle'r oedd y rhai 18-30 oed yn dibynnu fwyaf ar incwm gwaith, a dim ond 46% o'r rhai rhwng 30-45 oed a oedd yn dibynnu ar gyflog gwaith. Mae tenantiaid 45-60 oed yn dibynnu 45% ar Gredyd Cynhwysol, a 46% ar gyflog gwaith, rhaniad diddorol. Roedd y rhai 60+ oed yn ennill y rhan fwyaf o'u hincwm o ymddeoliad (67%).


O ran ymatebwyr a nododd eu bod o ethnigrwydd BAME, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran sefyllfa incwm y cartref o gymharu â'r ymateb cyffredinol.

Dim ond dau y cant o'r holl ymatebwyr a honnodd eu bod wedi derbyn incwm o gymorth hyfforddiant ac addysg, mewn geiriau eraill, myfyrwyr yw'r ddemograffeg hon. Mae marchnad y myfyrwyr a phrofiad y tenant yn sefyllfa wahanol iawn. Rydym yn cydnabod hyn ac rydym am wneud mwy o ymchwil ond credwn y dylai'r arolygon Pwls Tenantiaid hyn barhau i ganolbwyntio ar rentwyr tymor hwy.

Safbwyntiau Tenantiaid ar Gost Ynni

Pwrpas y cwestiynau hyn oedd deall sut y bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar denantiaid. Mae'n debygol y bydd yr ymatebion yn newid wrth i amser fynd yn ei flaen, wrth i'r arolwg hwn gael ei ryddhau a'i ateb cyn i'r costau ynni gynyddu. Mae'r cynnydd nesaf mewn capiau ynni ym mis Hydref 2022 yn dod â llawer o gwestiynau ynghylch faint y bydd biliau ynni'n cynyddu, a gyda llawer o gartrefi nad ydynt yn defnyddio ynni'n effeithlon, bydd hyn yn codi biliau tenantiaid yn sylweddol.

A ydych yn poeni na fyddwch yn gallu fforddio gwresogi eich cartref oherwydd y cynnydd yng nghost ynni?



Roedd yr ymateb mwyaf cyffredin yn dangos bod tenantiaid yn teimlo na fyddant yn gallu fforddio gwresogi eu cartref os bydd cynnydd yng nghost ynni.

Mae costau cynyddol gwres hefyd wedi achosi tenantiaid i newid eu hymddygiad a'u ffordd o fyw, gydag 89% o ymatebwyr yn cytuno eu bod wedi gorfod gwneud newidiadau.

Tenantiaid Cymdeithasau Tai oedd yn poeni fwyaf ar 74% a thenantiaid y sector rhentu preifat yn is na'r cyfartaledd ar 55%. Tenantiaid Tai â Chymorth oedd yn lleiaf pryderus, sef 40%.

Newid ymddygiad o ran defnyddio ynni

Ydych chi wedi newid eich ymddygiad o ran sut yr ydych yn cynhesu eich tŷ oherwydd cynnydd mewn costau? Er enghraifft, defnyddio llai ar y gwres canolog.



Pan wnaethom hidlo am y rhai nad oedd wedi newid ymddygiad ac adolygu sylwadau ategol, roedd llawer yn disgyn i mewn i:

- 1) Tenantiaid tai cymdeithasol hŷn sy'n byw mewn cynlluniau lle mae costau ynni yn rhan o rent/taliadau gwasanaeth.
- 2) Tenantiaid na allent newid eu hymddygiad am resymau meddygol

Sylwadau gan denantiaid:

"Do, gan fod gen i Syndrom Raynaulds dwi'n treulio mwy o amser yn y gwely gyda'r flanced drydan ymlaen ac wedi gwisgo menig, sgarffiau a hetiau i gadw'n gynnes. Mae'r gwres thermol o'r haul bellach wedi'i atal rhag gwresogi fy nghartref ers gosod inswleiddiad allanol. Mae hyn yn golygu fy mod yn defnyddio gwres ym mis Mai pan na fyddai angen i mi wneud hynny fel arfer."

"Llawer o flancedi a dillad cynnes iawn. Mynd i'r gwely yn gynt pan fo hynny'n bosibl."

"Dim ond yn rhoi'r gwres ymlaen yn y gaeaf dim ond pan fydd hi'n oer IAWN. Defnyddio canhwyllau gyda'r nos yn lle bylbiau golau. Rhoi'r golchi y tu allan pan allaf yn lle yn y sychwr."

O'r rhai a ddywedodd NAD ydynt wedi gorfod newid eu hymddygiad oherwydd costau cynyddol, dyma rai o'r rhesymau pam:

"Mae fy mhartner yn sâl a bob amser yn oer iawn felly mae'n rhaid i mi roi'r gwres ymlaen o hyd."

"Mae ein rheiddiaduron yn drydanol ac yn mynd ymlaen ac i ffwrdd ar adegau a ddiffiniwyd ymlaen llaw. Maen nhw wedi bod fel hyn erioed felly ni allaf newid fy ymddygiad."

Mae rhai straeon cadarnhaol: *"Lwcus i gael gosod pwmp gwres o'r ddaear newydd ychydig dros flwyddyn yn ôl, oherwydd methodd yr hen un. Mae'n awtomatig ac yn ymateb i dymheredd allanol. Mae fy nefnydd o drydan wedi gostwng yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf."*

Noder: dywedodd llawer o'r rhai a ddywedodd 'NA' i'r cwestiwn hwn na fyddant yn newid ymddygiad oherwydd 'ni fyddant yn goroesi os byddant yn gwneud hynny'. Mae'r amodau

presennol wedi gadael rhai tenantiaid heb ddewis i droi'r gwres ymlaen neu i ffwrdd, gan y gallai peidio â'i droi ymlaen arwain at salwch/marwolaeth.

Wrth hidlo, nid oedd unrhyw gategoriâu uniongyrchol a oedd yn ystadegol uwch neu is. Rhedwyd 30+ o ffilterau ond roedd effaith debyg ar gategoriâu e.e. tenantiaid BAME 89%, pob SRhP 90%, rhai dan 30 oed 92% dros 60 oed 86%. Y categori gyda'r lefel uchaf o bryder (100%) sydd wedi newid eu harferion yw: tenantiaid awdurdod lleol 45-60 oed.

Newid yn y Farchnad Ynni: Cyflenwyr Ynni yn cau

Mae cwmnïau cyflenwi ynni wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan leihau o tua saith deg o gwmnïau i ddau ar hugain bellach, gyda rhagolygon o leihau ymhellach i ddeuddeg cwmni. Gall y cau hwn ddod â straen i denantiaid os oes rhaid iddynt ddod o hyd i ddarparwr newydd, sefydlu cyfrif, a darganfod protocolau newydd sy'n unigryw i bob cwmni.

Noder: dim ond 2% oedd ag ynni wedi'i gynnwys yn eu trefniadau rhentu.

Pan edrychwn ar y manylion, nid oedd amrywiad mawr – mae cyflenwyr ynni yn cau wedi cael ei effaith ar draws y sector tai.

Roedd gostyngiad bach yn y tenantiaid cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol oedd yn cael eu heffeithio lleiaf, a rhentwyr preifat o 30-45 oedd yn cael eu heffeithio fwyaf.

Canfyddiad allweddol: Wrth ofyn i denantiaid am eu cwmni ynni, dywedodd 19% eu bod wedi cael eu heffeithio gan y ffaith bod y cwmnïau wedi cau.

Agweddau at landlord fel brocer/cyflenwr ynni

Cwestiwn: Wrth i gwmnïau ynni gau a thariffau'n newid yn gyflym, mae rhai trigolion/cymunedau'n grwpio gyda'i gilydd ac yn chwilio am fargen grŵp gyda chyflenwr ynni dewisol (ond dal gyda biliau unigol). Y nod yw negodi pris ac ansawdd gwell i bawb. A fydddech chi'n teimlo'n hapus i gymryd rhan mewn bargaen a drafodwyd mewn grŵp yn seiliedig ar eich cymuned neu landlord lleol?

Diben y cwestiwn oedd profi agwedd tenantiaid at atebion ynni lleol a oedd yn seiliedig ar gymuned neu a allai gael eu 'bil' gan landlordiaid. Mae datrysiadau cynhyrchu ynni newydd ynghyd â thechnoleg fel Systemau Ynni Deallus (IES) yn cynnig opsiynau newydd yn ymwneud â chynhyrchu ynni cymunedol.

Canlyniadau:

Roedd cwestiwn y llithrydd ar raddfa 0-100 o Dim diddordeb / Diddordeb.

Y cyfartaledd ar draws deiliadaeth oedd 64% ond roedd yn denu barn ranedig.

Y rhai a sgoriodd dros 50%, eu cyfartaledd oedd 82% a'r rhai a sgoriodd lai na 50% eu cyfartaledd oedd 18%.


Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng cymdeithasau tai ac ALI nac oedrannau. Ychydig yn llai o frwdfrydedd ymhlith tenantiaid y SRhP.

Cartrefi Cost Ynni Isel

Mae fersiwn 2023 o Safon Ansawdd Tai Cymru yn agor cwestiynau ynghylch sut y telir am ôl-ffitio cartrefi i Sero Net. Mae llawer o denantiaid wedi mynegi pryderon y bydd cyfrifoldebau ariannu yn disgyn ar denantiaid drwy godiadau rhent, a gyda chostau byw eisoes yn codi, gall hyn ddod ag ansicrwydd. Mae costau byw ar gynnydd gyda chwyddiant cynyddol a chostau ynni yn cynyddu'n sylweddol.

Gofynnwyd i ymatebwyr a fyddent yn talu rhent uwch am filiau ynni is, Atebodd 45% 'na,' gyda 21% yn ateb 'byddwn,' a 34% yn ateb nad ydyn nhw'n siŵr.

Mae trosti cartref presennol yn gartref ynni cost isel iawn yn broses ddrud. A fydddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn talu rhent uwch am gartref cost ynni isel?



Yr hyn a ddatgelodd yr hidlwyr:

- Roedd Cymdeithasau Tai ychydig yn fwy parod i dalu rhenti uwch am gartref ynni isel (25%). O fewn hynny, roedd y derbyniad isaf gyda 18-30 (13%) ac uchaf ymhlith >60au
- Tenantiaid Awdurdod Lleol oedd leiaf parod i dalu rhenti uwch am ynni isel (16%).
- Roedd y lefel uchaf o 'ddim yn gwybod' gyda rhentwyr preifat (40%).
- O ran oedran, roedd canlyniadau tebyg ymhlith yr holl grwpiau oedran ynghylch a fyddent yn fodlon talu rhent uwch am gostau ynni is. Roedd pobl dros 60 oed yn gliriach yn 'Na' ac roedd 18-30 yn fwy tebygol o ateb 'ddim yn gwybod'.
- Roedd un categori a oedd yn groes i'r llinell. Pan wnaethom hidlo ar ffynhonnell incwm roedd myfyrwyr yn sefyll allan gyda 47% o dderbyniad ar gyfer rhent uwch ar gyfer cartrefi cost ynni isel (mae hynny'n ddwbl y rhan fwyaf o rai eraill). Daeth yr holl ffynonellau incwm eraill i mewn ar ystod o 18%-27% yn cytuno.

Dyma sylwadau gan denantiaid ynghylch pam y byddent yn talu pris rhent uwch:

"Byddai'n well gen i dalu ychydig bach yn ychwanegol i gael cartref ynni effeithlon sy'n rhad i'w redeg"

"Siawns y byddai'r arian y bydddech chi'n ei arbed o fudd i'ch incwm a hefyd yn arbed ar yr amgylchedd"

"Rwyf ar hyn o bryd yn byw mewn tŷ gyda boeler hen iawn. Byddwn yn hapus i dalu mwy o rent am rywbeth mwy economaidd ac amgylcheddol gyfeillgar"

"Byddwn yn cytuno i newid ond mae pob cartref yn wahanol ac ymgynghori yw'r gair allweddol i mi fy hun."

Sylwadau gan denantiaid ynghylch pam na fyddent yn talu pris rhent uwch:

"Ni fyddai'n amhosibl fforddio talu mwy, mae rhenti eisoes yn codi ar gyfartaledd £20-25 y mis flwyddyn ar ôl blwyddyn. Eisoes yn gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta."

"Mae ein pensiynau ni ymhlith yr isaf yn y byd gorllewinol. Rwy'n disgwyl bod mewn dyled erbyn diwedd y flwyddyn."

"Rwyf eisoes yn talu hanner fy incwm mewn rhent. Ni allaf fforddio mwy."

Sylwadau gan denantiaid a ymatebodd nad ydynt yn gwybod a fyddent yn talu rhent uwch:

"Gallai weithio allan rhatach yn y tymor hir ond byddai angen gweld tystiolaeth."

"Mae gen i incwm isel ac yn cael trafferth i dalu fy holl dreuliau presennol. Rwyf hefyd wedi gwneud addasiadau i'm cartref i weddu i ddefnyddiwr cadair olwyn, gan fod gan fy merch anabledd. Felly mae symud yn syniad cymhleth i fy nheulu."

"Byddai'n rhaid gweld tystiolaeth glir y byddai'r rhent uwch yn arbed arian i mi mewn ynni yn y tymor hir."

"Yn ddelfrydol byddwn, ond rwy'n eithriadol o dlawd a phrin y gallaf fforddio fy rhent sydd eisoes yn isel ochr yn ochr â chostau byw eraill."

Agwedd tenantiaid at newid hinsawdd

Mae tai yn cyfrif am 40% o allyriadau carbon cyffredinol y DU, gan achosi newid hinsawdd i ddod yn bwnc blaenllaw yn y sector tai. Mae Safon Ansawdd Tai Cymru 2 Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n helaeth ar newid yn yr hinsawdd a Sero Net. Faint mae tenantiaid yn ei wybod am amcan Cymru o lwybr at Sero Net?

Roedd rhai o'r cwestiynau ar arolwg eleni ychydig yn fwy rhyngweithiol na dim ond blychau ticio syml, ac roeddent yn caniatáu i ymatebwyr ddefnyddio llithrydd i ymateb i'r cwestiwn.

Canfyddiad Allweddol: Ar raddfa o 0-100 dim yn pryderu i'r rhai oedd yn bryderus iawn, roedd 86% ar gyfartaledd o ymatebwyr yn pryderu am newid hinsawdd. Y rhai 18-30 oed oedd yn pryderu fwyaf am newid hinsawdd (94%), ac yna'r grŵp oedran 30-45 (76%).

Wrth ychwanegu ffilterau gwahanol i gael golwg agosach ar y rhai sy'n pryderu am newid hinsawdd, datgelodd fod 93% o denantiaid cymdeithasau tai yn amrywio o 'pryderus' i 'pryderus iawn' am newid hinsawdd, o gymharu â'r 81% o ymatebwyr yn y SRhP a ymatebodd yn debyg.


Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan

Mae ceir trydan yn dod yn safon sy'n dod i'r amlwg ar gyfer ceir, ac mae'n bwysig gwybod sut y byddai pobl yn symud o geir petrol i geir trydan. Yn yr Unol Daleithiau, lle mae'r adeiladau'n fwy newydd a'r ffyrdd yn fwy, efallai y bydd yn haws gweithredu pwyntiau gwefru. Yng Nghymru, lle mae llawer o dai teras, llety dwysedd uwch a ffyrdd llai, nid yw gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mor syml. Gofynnwyd i denantiaid am eu hopsiynau pe baent yn cael cerbyd trydan. Canfuom nad oedd gan y rhan fwyaf o ymatebwyr unrhyw syniad sut y byddent yn ei wefru.

Pwynt allweddol: Mae'n nodedig bod ymatebwyr 18-29 oed yn fwy tebygol o fod heb gar, felly roedd y cwestiwn yn llai perthnasol iddyn nhw..

Ymatebion Cyffredinol

Pe bai car trydan yn cymryd lle eich car yfory - sut fydddech chi'n ei wefru o ddydd i ddydd?




Unwaith y byddwch yn hidlo 'Amherthnasol' – mae nifer sylweddol o ymatebwyr nad ydynt yn gwybod sut i wefru eu cerbyd trydan pe bai un petrol nhw yn cael ei adnewyddu heddiw. Nid

oedd digon yn teimlo y gallent ei wefru o'u cartref. A yw hyn yn rhwstr i ddefnyddio cerbydau trydan?


Tenantiaid Tai Preifat

Pe bai car trydan yn cymryd lle eich car yfory - sut fydddech chi'n ei wefru o ddydd i ddydd?



Tenantiaid Tai Cymdeithasol

Pe bai car trydan yn cymryd lle eich car yfory - sut fydddech chi'n ei wefru o ddydd i ddydd?



Yn gyffredinol, atebodd y tenantiaid tai preifat a thai cymdeithasol yr un peth ar y cwestiwn hwn yn yr arolwg, ac mae hyn yn dangos y bydd problemau'n cael eu hwynebu pe bai Cymru am symud tuag at fwy o gerbydau trydan.

Wrth edrych ar hidlwyr i helpu i leihau'r canfyddiadau, mae'r rhanbarth preswyl yn cyfrannu at atebion ynghylch gwefru ceir trydan. Dywedodd 38% o drigolion Sir Benfro y gallent gael pwynt gwefru cartref, o gymharu â'r 8% o ymatebwyr yng Nghaerdydd a allai osod pwynt gwefru cartref. A allai hyn adlewyrchu dwysedd byw uwch lle mae gwefru unigol yn fwy heriol? Yn yr un modd, er bod niferoedd y rhai nad oedd ganddynt gar yn amrywio o 25%-35% mewn rhanbarthau mwy gwledig, nid oes gan 58% o ymatebwyr SRhP Caerdydd gar. Mae hyn yn dangos anghenion gwahanol tenantiaid yn seiliedig ar ble maent yn byw, os yw gyrru yn fwy cyffredin yn eu dinas, a ydynt yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac ati.


Gwybodaeth Tenantiaid am Systemau Ynni Effeithlon

Mae systemau gwresogi newydd yn cael eu gosod mewn cartrefi i'w gwneud yn fwy ynni-effeithlon. Rhai enghreifftiau o'r systemau newydd hyn yw paneli solar, pypiau gwres o'r ddaear/ffynhonnell aer. Mae addysg ynghylch yr hyn y gall tenantiaid ddisgwyl ei weld o bosibl yn cael ei osod yn eu cartref yn hanfodol i lwyddiant Sero Net, ac mae pob cartref yn unigryw o ran pa waith y gallai fod angen iddynt ei wneud.

Mae ymgysylltu â thenantiaid yn **allweddol** yn y llwybr i Sero. Mae angen i ymgysylltu â thenantiaid ddigwydd ymhell cyn ac yn parhau ar ôl i waith gael ei wneud yng nghartref tenant. Mae yna newidiadau ffordd o fyw sy'n dod gyda Sero Net cyfredol ac mae angen i landlordiaid fod yn dryloyw ynghylch sut olwg allai fod ar y newidiadau hynny a darparu cymorth o ystyried y cyfnod pontio a thu hwnt.

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg ddewis o blith grŵp o bum system wresogi newydd, a ydynt yn adnabod rhywun sydd ag unrhyw un o'r systemau hyn neu a ydynt wedi'u gosod yn eu cartref eu hunain. Dywedodd 52% llethol o ymatebwyr nad oeddent yn adnabod unrhyw un sydd â'r systemau hyn.

Dros y degawd nesaf, efallai y bydd gan eich cartref system wresogi newydd neu addasiadau ffisegol i wneud ein cartrefi yn fwy ynni-effeithlon. Oes gennych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod unrhyw un o'r canlynol (dewiswch y rhai sy'n berthnasol)



Nid yw'r niferoedd hyn i ddweud nad oes gan fwy o bobl y systemau hyn, ond mae'n tynnu mwy ar yr ymwybyddiaeth sydd gan ymatebwyr o'r systemau hyn.


Ein nod oedd meincodi ymwybyddiaeth lefel uchel. Mae'r ffigwr hwn yn y pen draw yn dangos y gwaith sydd angen ei wneud, gyda mwy na hanner yr ymatebwyr heb unrhyw un o'r systemau hyn nac yn adnabod rhywun arall ag unrhyw un ohonynt ychwaith. Mae gan Safon Ansawdd Tai Cymru nod i gael pob eiddo tai cymdeithasol i safon tystysgrif perfformiad ynni (EPC) A erbyn 2033, ac mae'r ffigwr hwn yn dangos bod pwysau mawr ar waith sydd ei angen.

O ran dadansoddiad roedd gwahaniaeth amlwg:

- Tenantiaid Awdurdod Lleol oedd â lleiaf o ymwybyddiaeth.
- Tenantiaid 18-30 mlwydd oed oedd fwyaf ymwybodol o atebion fel pypiau gwres.

Systemau Ynni Deallus

Mae System Ynni Deallus (IES) yn fath o fesurydd/rheolwr clyfar wedi'i osod mewn cartref i helpu i wneud y gorau o effeithlonrwydd ynni. Yn y pen draw, bydd yn cael ei ddefnyddio i ddysgu hofferiau person o ran pryd mae'n defnyddio ei egni, ac yna mae'n helpu'r defnyddiwr i wneud y gorau o'u defnydd / costau ynni. Fe wnaethom ofyn: Er mwyn cael y gorau o'r cit, mae monitorau smart hefyd yn cael eu gosod i fonitro a gwneud y gorau o'r cynhesrwydd. Maen nhw'n dysgu eich dewisiadau a sut rydych chi'n byw yn eich cartref ac yn gwneud y gorau o'ch egni. Gelwir y rhain yn systemau IES (Systemau Ynni Deallus). A fydddech chi'n hapus i'ch darparwr ynni osod un yn rhan o brosiectau effeithlonrwydd ynni?



Datgelodd canlyniadau Pwls Tenantiaid y byddai 49% o denantiaid yn hapus i gael un wedi'i osod ar ôl iddynt ddysgu mwy amdano, gyda 39% o denantiaid yn barod i gael un wedi'i osod, gan adael 12% o denantiaid yn dweud na fyddent yn hapus i gael IES yn eu cartref. Defnyddiwyd hidlydd i weld sut yr ymatebodd pobl a oedd yn pryderu am wresogi eu cartrefi gyda'r costau ynni cynyddol i'r cwestiwn hwn. Cafwyd naid i 47% o'r ymatebwyr hyn a atebodd y byddent yn hapus i gael IES wedi'i roi yn eu cartref, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ffaith bod IES i fod i olrhain ble mae'ch ynni'n mynd, ac felly eich helpu i ostwng eich costau.

Daeth y ganran uchaf o wrthwynebiad i system IES yn cael ei gosod gan y rhai a ddywedodd na fyddent yn gyfforddus yn talu pris rhent uwch am filiau ynni is. Atebodd 20% o'r ymatebwyr hynny na fyddent yn hapus i gael IES wedi'i osod yn eu cartref, gan ein harwain yn ôl at y cwestiwn hwnnw o ymddiriedaeth tenantiaid gyda'u landlordiaid ac ymwybyddiaeth o'r atebion Sero Net ac ynni newydd yma.

Wrth edrych ar oedran, y rhai 60+ oedd â'r ganran isaf o'r rhai a fyddai'n hapus i gael IES wedi'i osod, gyda 51% yn ateb y byddent yn caniatáu iddo unwaith y byddent wedi dysgu mwy, a 16% yn ateb na fyddent yn hapus i gael un.

Mae Sero Net yn dod â math newydd o dechnoleg, a bydd hon yn gromlin ddysgu i denantiaid ledled y byd, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn barod am unrhyw newidiadau ffordd o fyw a ddaw yn sgil yr atebion newydd hyn. Ond, mae'r canrannau hyn yn dangos y gall ymgysylltu ac addysg ar Sero Net helpu i ddiddymu rhai o'r mythau ynghylch Sero Net.

Noder: Yn dilyn yr arolwg, cynhaliodd TPAS Cymru wythnos â thema Sero Net. Cynhaliodd cynrychiolydd o Sero sesiwn ar Systemau Ynni Deallus a'r hyn y mae'n ei olygu i denantiaid. Roedd adborth tenantiaid o'r sesiwn honno'n gadarnhaol iawn wrth i Sero nodi beth oedd IES ac ateb cwestiynau. Fel bob amser, mae ymgysylltu agored yn helpu i chwalu rhwystrau a phryderon.

Yr Economi Gylchol

Mae prosiectau economi gylchol yn denu diddordeb yng Nghymru ac yn enwedig y rhai sy'n gweithio yn yr agenda tlodi/cyd-nerthu cymunedol. Yn lle economïau traddodiadol lle rydych chi'n prynu rhywbeth, yn ei ddefnyddio ychydig ac yna'n ei daflu, mae economïau cylchol yn gweithio i ddileu gwastraff a defnydd cyffredinol, trwy ymestyn oes a defnydd eitemau. Mae angen newid meddylfryd wrth drafod llwyddiant Cymru yn y llwybr i sero, ac mae economi gylchol yn rhan sylfaenol o'r newid meddwl hwnnw pan ddaw'n fater o ddefnydd.

Yn yr arolwg hwn fe wnaethom archwilio dau bwnc – Llyfrgell Pethau a Chaffis Atgyweirio.

Mae'r Llyfrgell o Bethau yn fenter gymdeithasol gyda lleoliadau yn datblygu yng Nghymru sy'n helpu pobl i arbed arian a lleihau gwastraff trwy rentu eitemau cartref defnyddiol yn fforddiadwy. Gall eitemau amrywio o offer pŵer DIY, offer garddio, a pheiriannau gwnïo i gemau plant, cadeiriau traeth ac offer gwersylla. Mae lleoliadau Llyfrgell o Bethau yng Nghymru yn agor ledled Cymru, yn aml dan arweiniad Benthyc Cymru.

Mae caffi atgyweirio yn ofod cymunedol lle gall pobl gymryd eu heitemau sydd wedi torri a'u trwsio gan wirfoddolwyr sydd â'r sgiliau perthnasol. Mae rhai yn ddiwrnodau â thema, mae eraill yn ddyddiau agored. Mae Caffi Trwsio Cymru yn cynorthwyo llawer o leoliadau i'w sefydlu a'u datblygu.

Gydag eglurhad digymell, roedd 25% o ymatebwyr wedi clywed am Lyfrgell o Bethau. Roeddem o'r farn bod hyn yn uchel oherwydd i) nid oes llawer o leoliadau byw o amgylch Cymru ii) nid yw'n hawdd dyfalu beth ydynt.

O edrych ar oeddrannau, y rhai rhwng 18-30 oed oedd â'r ganran uchaf pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi clywed neu wedi ymweld â Llyfrgell o Bethau, gyda 31% yn ymateb eu bod wedi. Roedd y nifer isaf o'r rhai oedd wedi clywed neu ymweld yn perthyn i'r rhai 60+ oed, sef 22%.

Dywedodd 48% o'r tenantiaid y byddent yn ymweld â Llyfrgell o Bethau ar ôl cael eglurhad ynghylch beth ydynt.

Wrth hidlo yn ôl ffynonellau incwm, y rhai sy'n derbyn incwm yn bennaf o systemau cymorth addysgol (myfyrwyr) a ymatebodd gyda'r ganran uchaf (60%) y byddent yn ymweld â Llyfrgell o Bethau, ac yna'r rhai sy'n ennill eu hincwm yn bennaf o gyflog (55%). Mae myfyrwyr yn aml yn dod i gysylltiad â sefydliadau tebyg trwy undeb myfyrwyr eu prifysgol, gan fod gan lawer o brifysgolion siopau ail-lenwi a chydweithfeydd hefyd i helpu myfyrwyr i fod yn fwy eco-ymwybodol.

Yna gofynnwyd a oeddent wedi clywed neu wedi ymweld â chaffi atgyweirio. Atebodd 53% o ymatebwyr eu bod wedi gwneud hynny. O edrych ar y dosbarthiad ymateb, fel y byddech yn disgwyl roedd ychydig o 'ddim yn siŵr' – ie neu na hyderus oedd hi.

Ar ôl rhoi crynodeb byr o beth oedd caffi trwsio, dyma oedd yr ymateb:

- Atebodd 65% o ymatebwyr eu bod yn debygol o ymweld â chaffi atgyweirio.
- Wrth hidlo – nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng y math o ddaliadaeth na'r ffynhonnell incwm.
- Roedd y rhai â diddordeb mwyaf yn rhentu o dan 30 neu'n cael eu nodi fel BAME (y ddau yn 85%).

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio safbwyntiau llawer o fathau o denantiaid o bob rhan o Gymru. Cynlluniwyd y Pwls Tenantiaid hwn o amgylch ynni a Sero Net, ac roedd rhyddhau SATC2 yn rhoi sylw brys ymhellach i sut y bydd nodau Sero Net yn effeithio ar denantiaid yn y dyfodol.

Datgelodd yr arolwg hwn fod llawer o denantiaid yn poeni am eu biliau ynni ar gyfer y gaeaf ac yn betrusgar ynghylch y systemau ynni adnewyddadwy newydd a allai gael eu gosod yn eu cartrefi. Mae'r argyfwng costau byw yn flaenllaw ym meddyliau tenantiaid, a chyda llawer o ffactorau na ellir eu rheoli, defnydd ynni yw un o'r unig bethau y gallant ei reoli i gadw costau misol i lawr..

Y tu allan i Bwls, mae ein sianeli llais tenantiaid yn gweld codiadau rhent o dan chwyddiant uchel fel mater arall y mae tenantiaid yn ei wynebu. Rhannodd tenantiaid drwy'r arolwg hwn, er bod gostwng eu hallyriadau carbon a'u biliau ynni cyffredinol yn swnio'n dda, oni bai bod gwarant y bydd systemau Sero Net yn lleihau eu biliau, maent yn betrusgar i dalu amdano.

Gall newid systemau gwresogi presennol i systemau gwresogi Sero Net ddod â newidiadau ffordd o fyw, a gall hyn ddod yn llethol i denantiaid, yn enwedig gyda chynnydd mewn costau byw. Mae'n rhaid i'r cyfrifoldeb wedyn fod ar landlordiaid i gyfathrebu'n effeithiol ac yn effeithlon gyda'u tenantiaid i sicrhau eu bod yn cael gwybod am newidiadau posibl a allai ddigwydd i'w cartref ar sail unigol.

Panelli solar oedd y system wresogi fwyaf adnabyddus i denantiaid, ac er y gall PV solar fod yn wych ar gyfer rhai eiddo, nid yw'n fuddiol i bawb. Mae angen gwneud mwy o waith ar addysgu tenantiaid am y systemau y gallent weld yn cael eu rhoi yn eu heiddo eu hunain, megis pwmp gwres ffynhonnell aer neu foeler clyfar. Mae'r berthynas landlord a thenant yn allweddol yn y llwybr i Sero, a chyfathrebu yw'r ffordd y cyflawnir nodau Sero Net.

Mae adnoddau heb eu defnyddio fel Llyfrgell Pethau s a chaffis atgyweirio a all ddod â naws gymunedol gryfach i gymdogaeth tra ar yr un pryd yn helpu i leihau allyriadau carbon ac ôl troed carbon rhywun. Dylai landlordiaid ddisgwyl gweld mwy o gyfranogiad gan denantiaid yn Sero Net os oes gwell teimlad o gymuned a pherthyn.

Gwelodd Pwls Tenantiaid eleni welliant mewn ymateb gan denantiaid yn y Sector Rhentu Preifat (33%) ac mae hyn yn ein gwneud yn obeithiol, gyda phob blwyddyn o'r arolwg hwn, y gallwn gael cronfa ymateb fwy cynhwysol o denantiaid i roi dealltwriaeth ehangach i ni o sut mae tenantiaid yn teimlo yn ogystal â rhai o'r materion allweddol y maent yn eu hwynebu. Mae effeithlonrwydd ynni wedi dod yn ffocws yn y sector tai, ac mae'n hollbwysig bod pawb yn cyfrannu eu barn fel y gall sefydliadau a chyrff llywodraethol gael darlun ehangach o sut i gynnig cynllun gweithredu addas. Gobeithiwn gael mwy o ymateb yn y blynyddoedd i ddod gan y rhai sydd â chefnidir Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Camau Nesaf

Mae tenantiaid wedi cymryd amser i roi eu barn yn yr arolwg hwn. Mae eu lleisiau yn bwysig ac yn haeddu eich ystyriaeth a'ch gweithrediad.

Rydym yn cynnal digwyddiad Rhwydwaith Tenantiaid pwrpasol i denantiaid roi eu barn ar y canfyddiadau. Byddwn yn anfon yr adroddiad hwn at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar draws y sector tai gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwyr Tai a Phenaethiaid Gwasanaeth yn gofyn am eu cadwraeth a'u camau gweithredu. Mae pob tenant a gwblhaodd yr arolwg ac a ddewisodd gopi o'r adroddiad wedi cael copi cyn ei gyhoeddi.

Yn ogystal, yn seiliedig ar adroddiadau eraill TPAS Cymru, mae'n debygol y byddwn yn gofyn i ni gyflwyno i grwpiau tenantiaid a thimau staff ledled Cymru. I ofyn am sesiwn, cysylltwch enquiries@tpas.cymru

Mae gennym ddiddordeb mawr mewn gwybod eich barn ar yr adroddiad hwn ac yn enwedig pa gamau a gymerwyd gennych o ganlyniad i'r adroddiad hwn

Nodiadau:

- 1) Cyswllt ymholiadau cyfryngau: David Wilton drw@tpas.cymru 07896871164
- 2) I weld ein Hadroddiadau Pwls eraill ewch i www.tpas.cymru/pulse

Cydnabyddiaethau

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n panel Pwls Tenantiaid am eu hysbrydoliaeth barhaus a'u hymrwymiad i gymryd rhan yn ein harolygon. Mae eich mewnbwn yn cael ei werthfawrogi'n wirioneddol ac mae'n helpu i lunio dyfodol tai.

Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu TPAS Cymru fel sefydliad yn rhannol ac i Wales & West am y prif nawdd trwy gydol y flwyddyn.

Dyma'r ail o arolwg Sero Net arfaethedig ar agweddau tenantiaid. Rydym yn cydnabod bod modd mireinio a gwella pellach yn flynyddol a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau.

Ynglŷn â TPAS Cymru



Mae TPAS Cymru wedi cefnogi tenantiaid a landlordiaid yng Nghymru ers dros 30 mlynedd i ddatblygu cyfranogiad tenantiaid a chymuned effeithiol trwy hyfforddiant, cefnogaeth, prosiectau ymarferol a datblygu polisi. Yn lleol rydym yn cefnogi grymuso cymunedau trwy gyngor ymarferol, cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith prosiect. Ar lefel y Llywodraeth, rydym yn cyfrannu at newidiadau polisi trwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod llais y tenant yn dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.



- i) Pwls Tenantiaid yw llais tenantiaid yng Nghymru.
www.tpas.cymru/yngghylch/pwls-tenantiaid Fe'i crëwyd gan TPAS Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ein nod yw:
- ii) Canfod beth sydd bwysicaf i denantiaid
- iii) Rhyddhau arolygon rheolaidd
- iv) Cynnal rafflau gwobrau i wobrwyo pobl sy'n cymryd rhan. Defnyddir canlyniadau ein harolygon gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid, ac sy'n helpu i wneud tai yng Nghymru yn fwy diogel a thecach.

Noddwyr Llais Tenantiaid



Mae Pwls Tenantiaid yn rhan o raglen waith sy'n ceisio cynyddu llais tenantiaid. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Grŵp Pobl sy'n noddi'r gwaith hwn.

Atodiad A: Cwestiynau

1. Fel y, gallwn eich deall yn well, ydych chi'n...	Tenant Cymdeithas Tai Tenant Awdurdod Lleol Tenant Landlord Preifat Tenant Tai â Chymorth Arall
2. Ym mha Sir/Awdurdod Lleol ydych chi'n byw?	Blaenau Gwent Pen y Bont ar Ogwr Caerffili Caerdydd Sir Gaerfyrddin Ceredigion Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Gwynedd Merthyr Tydfil Sir Fynwy Castell-nedd a Phort Talbot Casnewydd Sir Benfro Powys RCT Abertawe Torfaen Ynys Môn Bro Morgannwg Wrecsam
3. Beth yw eich oedran?	18-30 30-45 45-60 60+ Gwell gen i beidio dweud
4. Ydych chi'n ystyried eich bod yn dod o gefndir Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig?	Ydw Nac ydw
5. Sut byddech chi'n disgrifio sefyllfa incwm eich cartref?	Yn bennaf o Gredyd Cynhwysol/taliadau Lles eraill Yn bennaf o incwm gweithio/cyflog Incwm/pensiwn ymddeoliad yn bennaf Taliadau cymorth addysg a hyfforddiant yn bennaf Arall
6. A ydych yn poeni na fyddwch yn gallu fforddio gwresogi eich cartref oherwydd costau cynyddol ynni?	Ydw Nac ydw Weithiau Amherthnasol
7. Ydych chi wedi newid eich ymddygiad o ran sut yr ydych yn cynhesu eich tŷ oherwydd	Do Naddo

cynnydd mewn costau? Er enghraifft, defnyddio llai ar y gwres canolog	
8. Pa mor bryderus ydych chi am y newid yn yr hinsawdd (cwestiwn llithrydd sengl)	Gallai tenantiaid lithro marciwr i unrhyw le o 'ddim o gwbl' i 'bryderus iawn'
9. Pe bai car trydan yn cymryd lle eich car yfory - sut fydddech chi'n ei drydanu o ddydd i ddydd?	Gallai fod â phwynt gwefru cartref Dim parcio preifat, opsiwn gerllaw Pwynt gwefru yn y gwaith y gallwn ei ddefnyddio Dim syniad sut y byddwn i'n ei godi Ddim yn berthnasol gan nad oes gennyf gar
10. Mae nifer o gwmnïau ynni wedi cau yn ddiweddar. Mae cyflenwyr wedi gostwng o tua 70 i 22 a gallent fod yn 12 erbyn diwedd y flwyddyn. Ydy'ch cyflenwr wedi cau? Ydych chi wedi gorfod dod o hyd i gyflenwr arall?	Do – Rwyf wedi cael fy effeithio Na – Dal efo'r un cyflenwr Amherthnasol gan fod fy nghyflenwad ynni yn rhan o'r rhent/tâl gwasanaeth
11. Mae trosi cartref presennol yn gartref ynni cost isel iawn yn broses ddrud. A fydddech chi'n teimlo'n gyfforddus yn talu rhent uwch am gartref cost ynni isel?	Byddwn Na fyddwn Dim yn siŵr
12. Wrth i gwmnïau ynni gau, a thariffau'n newid yn gyflym, mae rhai trigolion/cymunedau yn grwpio gyda'i gilydd ac yn chwilio am fargen grŵp gyda chyflenwr ynni dewisol (ond yn dal i fod â biliau unigol). Y nod yw negodi pris ac ansawdd gwell i bawb. A fydddech chi'n teimlo'n hapus i gymryd rhan mewn bargaen a drafodwyd mewn grŵp yn seiliedig ar eich cymuned neu landlord lleol?	Cwestiwn llithrydd - gallai tenantiaid ymateb o 'Dim â diddordeb' i 'Efo diddordeb'
13. Dros y degawd nesaf, efallai y bydd gan eich cartref system wresogi newydd neu addasiadau ffisegol i wneud ein cartrefi yn fwy ynni-effeithlon. Oes gennych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod unrhyw un o'r canlynol (dewiswch y rhai sy'n berthnasol)	Paneli solar Pwmp gwres o'r ddaear Pwmp gwres ffynhonnell aer Cladin wal mewnol Boeler smart Ddim yn adnabod unrhyw un sydd â'r pethau hyn
14. Weithiau mae prosiectau arbed ynni yn cynnwys gosod paneli solar, trawsnewidyddion gwres ac ati mewn cartrefi. Er mwyn cael y gorau o'r cit, mae monitorau deallus hefyd yn cael eu gosod i	Byddwn yn hapus i gael un Byddwn, unwaith i mi ddysgu mwy amdano Ni fyddwn yn hapus i gael un

fonitro a gwneud y gorau o'r cynhesrwydd. Maen nhw'n dysgu eich hoffterau a sut rydych chi'n dewis defnyddio'ch cartref a gwneud y gorau o'ch egni. Gelwir y rhain yn systemau IES (Systemau Ynni Deallus). A fydddech chi'n hapus i'ch darparwr ynni osod un yn rhan o brosiectau effeithlonrwydd ynni?	
15. Ydych chi wedi ymweld neu glywed am lyfrgelloedd o bethau?	Cwestiwn llithrydd lle gallai tenantiaid ateb o 'Na, dydw i erioed wedi clywed amdanyn nhw' i 'Rwyf wedi clywed amdanyn nhw'
16. Mae llyfrgell o bethau lle gallwch chi fenthyg eitemau cartref am gost isel iawn, yn lle eu prynu. Pa mor debygol ydych chi o fenthyg o lyfrgell o bethau?	Cwestiwn llithrydd lle gallai tenantiaid ateb o 'annhebygol iawn' i 'tebygol iawn'
17. Ydych chi wedi ymweld neu glywed am gaffis atgyweirio?	Cwestiwn llithrydd lle gallai tenantiaid ateb o 'Na, dydw i erioed wedi clywed amdanyn nhw' i 'Rwyf wedi clywed amdanyn nhw'
18. Mae caffi atgyweirio yn ddigwyddiad cymunedol lle gallwch gael eich eitemau cartref wedi'u trwsio am ddim. Pa mor debygol ydych chi o fynd i gaffi atgyweirio?	Cwestiwn llithrydd lle gallai tenantiaid ateb o 'annhebygol iawn' i 'tebygol iawn'